



Cyfarfod

PWYLLGOR IAITH

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 18FED HYDREF, 2018

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679490

anession@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 10 Hydref 2018)

PWYLLGOR IAITH

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams

Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams

Eric M. Jones
John Pughe Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I ddatgan unrhyw fuddiant personol

3. MATERION BRYN

I nodi unrhyw faterion bryn sydd wedi codi

4. COFNODION

4 - 9

Y Cadwirydd i gadanhau cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 10 Gorffennaf 2018

5. ADRODDIAD AELOD CABINET

Diweddariad gan yr Aelod Cabinet

6. RHAGLEN WAITH Y CYNLLUN HYBU

10 - 17

I ystyried adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

7. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH

18 - 19

I ystyried adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

8. NEWID YMDDYGIAD AC ARFERION IAITH

Cyflwyniad gan Arwel Williams o Brifysgol Bangor

9. CWYNIION IAITH

20 - 21

I dderbyn diweddariad gan Reolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg

10. MESUR O LWYDDIANT: CRYNODEB O ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD Y GYMRAEG 2017/18

22 - 37

Er gwybodaeth i aelodau

PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 10 GORFFENNAF 2018

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr: Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Charles Wyn Jones, Elin Walker Jones, Eric M. Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, Eirwyn Williams ac Elfed Wyn Williams.

Swyddogion: Janet Roberts (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol), Gwenllïan Mair Williams (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), Sion Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Erail a wahoddwyd: Y Cyngorwyr Nia Jeffreys, Aelod Cabinet y Gymraeg, Y Cyngorwyr Edgar Wyn Owen (Is Gadeirydd y Cyngor)

Ar gyfer eitem 11: Rhion Glyn (Rheolwr Busnes Adran Oedolion) a Margaret K Jones (Rheolwr Cefnogi Gweithlu Adran Oedolion)

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail ethol y Cyngorwyr Alwyn Gruffydd yn Gadeirydd am y cyfnod 2018/2019

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorwyr Elin W Jones yn Is Gadeirydd am y cyfnod 2018/19

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Aled Evans ac Elwyn Jones

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 24ain Ebrill, 2018 fel rhai cywir

7. ADRODDIAD AELOD CABINET Y GYMRAEG

Croesawyd y Cynghorydd Nia Jeffreys i'w chyfarfod cyntaf fel Aelod Cabinet y Gymraeg.

Diolchodd yr Aelod Cabinet am y cyfle i fod yn bresennol i gael gwrandao ar y drafodaeth a chlywed blaenoriaethau'r Pwyllgor. Diolchodd i'r Cynghorydd Mair Rowlands am ei gwaith fel cyn Aelod Cabinet y Gymraeg. Eglurodd ei bod bellach yn y swydd ers dau fis ac yn dymuno gweld Gwynedd yn aros yn gadarn ac yn hyrwyddo'r iaith, er y miri Gwleidyddol sydd yn digwydd yn y Cyd-destun allanol. Cyfeiriodd at y gwaith da, cyffrous sydd yn cael ei wneud gyda Safonau Iaith, Cynllun Hybu'r Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd lle mynegodd bod llais plant yn ganolog i'w llwyddiant. Diolchodd i staff yr Uned Hunaniaeth am eu hymroddiad yn ysbrydoli ac yn hybu'r iaith, wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau ar draws y sir.

I'r dyfodol hoffai weld datblygiadau mewn technoleg ac appiau Cymraeg a'r chael cynllun gweithredu i'r Cynllun Hybu'r Iaith yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Dymunai weld y Gymraeg yn iaith fyw ac yn iaith gwaith ac edrychai ymlaen at gydweithio gyda'r Pwyllgor i sicrhau hynny.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau unigol,

- bod angen rôl oddefol i'r Pwyllgor yn hytrach nag un o graffu. Awgrym i ddatblygu rôl y Pwyllgor yn un i fod gyda mwy o ddylanwad.
- bod angen datblygu cysylltiadau gyda'r Adran Addysg
- bod angen cryfhau'r effaith rydym yn gael ar y sector breifat
- nad yw'r Gymraeg yn fater technegol - angen adlewyrchu ei fod yn rhan ohonom

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnal trafodaeth ehangach gyda'r Aelod Cabinet ynglŷn â rôl y Pwyllgor gan ystyried materion cyfansoddiadol a sefydlu pwrpas.

PENDERFYNWYD gosod eitem ar raglen y cyfarfod nesaf ' Datblygu Rôl y Pwyllgor Iaith'

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

Cyflwynwyd yr adroddiad mewn ymateb i ofynion Safonau Iaith lle mae gofyn i'r Cyngor lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin 2018 yn egluro sut yr oeddynt wedi cydymffurfio a'r safonau gweithred yr oedd ganddynt ddyletswydd i gydymffurfio a hwy. (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cyfeiriwyd at y Safonau penodol yr oedd gofyn iddynt adrodd arnynt ynghyd ag

unrhyw wybodaeth fyddai yn ychwanegu dealltwriaeth o'r camau penodol hyn. Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen yn dilyn cymeradwyaeth Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol, er gwybodaeth.

9. YMGYNGHROIAD CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG

Rhodddwyd diweddariad i'r Aelodau ar y broses o greu'r Cynllun Hybu ynghyd ag adrodd ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Adroddwyd bod y strategaeth drafft 'Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018 – 2023' wedi ei llunio ar sail ymgynghori gydag aelodau a dadansoddiad o strategaethau a chynlluniau perthnasol yn y maes. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o chwe wythnos (24ain Ebrill - 5ed o Fehefin 2018) lle rhodddwyd cyfle i drigolion Gwynedd gyfrannu drwy holiadur ar-lein, drwy gysylltu yn uniongyrchol a'r uned laith neu drwy fynychu un o dri digwyddiad agored.

Nodwyd bod yr ymateb wedi bod yn galonogol (121 wedi cyfrannu) gyda sylwadau adeiladol wedi eu cynnig. Amlygwyd bod cynllun gweithredu ar waith a bod trafodaethau mewnol eisoes wedi eu cynnal. Rhodddwyd crynodeb o'r atebion a dderbyniwyd ynghyd a'r heriau cyffredinol oedd wedi eu hamlygu. Cyfeiriwyd at y cynigion y dylid eu hystyried mewn ymateb i'r sylwadau a rannwyd i feysydd blaenoriaeth.

Yng nghyd-destun 'heriau cyffredinol', amlygodd yr ymgynghoriad bod;

- cyfleoedd a diffyg defnydd
- mewnfudo a chefnogi dysgwyr
- rôl technoleg

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i'r heriau gan aelodau unigol;

- bod angen codi ymwybyddiaeth i'r iaith cyn mewnfudo i'r Sir gan dynnu sylw at y cyfleoedd ymlaen llaw
- bod angen adnabod symudiad mewnfudo fel bod modd dehongli lle mae ar ei uchaf er mwyn ymateb i'r niferoedd
- bod rôl benodol i dechnoleg - angen rhoi mwy o sylw i hyn yn y cynllun
- angen cyflwyno'r hyn sydd ar gael yn fwy effeithiol
- angen adnabod cyfleoedd sydd yn addysgu dysgwyr i ddeall mai Cymraeg yw iaith y gymuned
- rhaid parhau i gynnal sesiynau dysgu Cymraeg – hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, ymgyrchu
- rhaid creu balchder ymysg Cymry Cymraeg
- bod cyfrifoldeb ar bawb i roi cefnogaeth i'r rhai sydd eisieu dysgu siarad Cymraeg
- creu cysylltiadau gyda chymunedau – trefniant mewn addysg bod rhieni yn

dysgu'r iaith ochr yn ochr gyda'u plant.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chynnwys y sylwadau uchod fel ystyriaethau ar gyfer y Cynllun Hybu terfynol.

10. CYMRAEG YN Y GWEITHLE

Derbyniwyd cyflwyniad gan Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol yn egluro sut roedd y Cyngor yn defnyddio'r Polisi Iaith i gryfhau iaith yn y Gweithle. Eglurwyd bod y Polisi Iaith wedi ei adolygu yn 2016 ac adroddwyd bod gofynion Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn uwch na pholisi'r Safonau Iaith.

Adroddwyd bod Gwynedd yn wahanol i bob Cyngor arall yng Nghymru gan mai Cymraeg yw iaith fewnol y Cyngor. I sicrhau bod safonau iaith yn gywir o fewn y Cyngor adolygwyd lefel disgwylidiedig ieithyddol swyddi'r Cyngor sydd bellach wedi eu hymgorffori fel rhan o 'fanylion y person' wrth hysbysebu swydd. Ategwyd bod cefnogaeth yn cael ei gynnig i lenwi'r bwlch wrth fesur staff cyfredol v dynodiadau iaith. Cyflwynwyd Sion Elwyn Hughes i'r Pwyllgor fel Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg sydd yn gyfrifol am gefnogi staff a hybu iaith o fewn y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau unigol,

- bod y Cyngor yn rhoi statws i'r iaith ac yn dylanwadu ar asiantaethau eraill
- bod rhywfaint o anwastadedd iaith 'eglw'r' ymysg swyddogion
- bod angen defnyddio Cymraeg Clir i osgoi jargon a symleiddio'r wybodaeth
- bod cynnyrch y Cyngor yn cael ei ddefnyddio gan Gynghorau eraill ac felly awgrym i geisio am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru
- cais i gyflwyno cwrs 'darllen cyflym' yn y Gymraeg
- Gwynedd yn arwain. Cyfle i sefydlu prosiectau rhanbarthol penodol a cheisio cael Cynghorau eraill yng Nghymru i ddilyn - rhannu ymarfer da
- Derbyn yr angen i ddefnyddio iaith syml, ond angen sicrhau iaith dechnegol, gywir.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyfleoedd datblygiadau personol i staff neu adrannau o fewn y Cyngor, nodwyd bod cyfle i staff neu unedau gynnig eu hunain am gymorth. Bydd sesiynau yn cael eu darparu yn unol â'r galw.

Derbyniwyd y wybodaeth.

11. MWY NA GEIRIAU

Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Reolwr Busnes Gwasanaeth Oedolion yn adrodd ar y modd mae'r Adran a'r Cyngor yn ymateb i ofynion 'Mwy na Geiriau' - Fframwaith

Strategol Olynol 2016-2019 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Lansiodd y fframwaith strategol olynol ym Mawrth 2016. Ategwyd bod y fframwaith yn cynnwys saith amcan sydd angen gweithredu arnynt erbyn 2019 a chyfeiriwyd at y diweddariadau ar amcanion hynny yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebwyd i'r heriau gan aelodau unigol;

- Angen adnabod yr anghenion ieithyddol
- Angen datblygu sgiliau Cymraeg a thargeddu'r sector breifat
- Angen sicrhau bod trosglwyddo gwybodaeth unigolyn yn rhwydd
- Angen cydweithio gyda darparwyr i'r dyfodol
- Angen ystyried a chynnig llwybr gyrfa
- Diwylliant iaith wahanol ymysg gwasanaethau gofal ac felly lle i feithrin cyfathrebu yn y Gymraeg er mwyn magu diwylliant o ymwybyddiaeth
- Angen i'r termau fod yn berthnasol i'r gwaith
- Ystyried defnyddio dysgwyr amlwg fel llysgenhadon i gefnogi'r gwaith
- Annog darparu gwybodaeth yn ddwyieithog

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phroblemau recriwtio maes gofal, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i gysoni graddfeydd, cynnal treialon a chomisiynu ar y cyd. Ategwyd mai UN strategaeth sydd yn bodoli ac felly lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn mynd i'r un cyfeiriad.

Nodwyd bod her i weithwyr rheng flaen ddysgu Cymraeg, ond angen annog yr hyder bod deall y Gymraeg yn ddigonol a bod angen adnabod cyrsiau sydd yn ymateb i hyn. Ategwyd bod Fforwm wedi ei sefydlu ar draws y Gogledd i rannu a thrafod ymarferion da.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â 'dewis' yr unigolyn o dderbyn gwasanaeth yn ei iaith ddewisedig, amlygwyd mai cynnig rhagweithiol, naturiol sydd yn digwydd gyda'r unigolyn, ond bydd 'y dewis' yn cael ei gofnodi ar gyfer casglu data yn unig. Ategwyd nad oes 'dewis' yn cael ei roi i'r unigolyn - rhan o'r broses weinyddol ydyw.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pholisi cyfathrebu'r Cyngor gyda chyrrff cyhoeddus, amlygwyd mai'r iaith Gymraeg sydd yn cael ei defnyddio ar bob achlysur. Yr arferiad yw cysylltu yn y Gymraeg hyd nes bydd ymateb yn cael ei dderbyn yn y Gymraeg. Derbyniwyd bod rhai eithriadau, ond ategwyd bod gwaith yn cael ei wneud i wella hyn.

Derbyniwyd yr adroddiad a nodwyd bod hwn yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir

12. CWYNIION IAITH

Adroddwyd nad oedd cwynion wedi eu derbyn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 6

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	18 Hydref 2018
TEITL:	Rhaglen Waith Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno Rhaglen waith gychwynnol er gwybodaeth a thrafodaeth.

1. Cefndir

- 1.1 Cafodd y Cynllun Hybu terfynol, a'r rhaglen waith gychwynnol, eu derbyn yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar y 4ydd o Hydref 2018.
- 1.2 Mae'r rhaglen waith yma yn gosod y camau cyntaf ar gyfer gweithredu ar flaenoriaethau'r Cynllun.
- 1.3 Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod yr Hydref gyda phartneriaid allweddol er mwyn rhannu'r bwriadau a chytuno ar flaenoriaethau gweithredu.

2 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

- 2.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried cynnwys y rhaglen waith a chynnig unrhyw sylwadau arni.
- 2.2 Gofynnir iddynt hefyd ystyried a oes yna unrhyw feysydd neu brosiectau yr hoffent fwy o wybodaeth arnynt er mwyn ehangu eu dealltwriaeth o'r meysydd blaenoriaeth ac o sut mae gwahanol bartneriaid yn cyfrannu at y weledigaeth.

Rhaglen Waith Gychwynnol Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023

Cyflwyniad:

Cynigir y rhaglen waith hon fel man cychwyn ar gyfer gweithredu ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Hybu. Mae'n amlygu cynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor ar hyn o bryd ac hefyd yn rhoi awgrymiadau ar gyfer prosiectau y gellir eu datblygu, ar y cyd gyda sefydliadau eraill, dros gyfnod y Cynllun.

Bydd y rhaglen waith hon yn ddogfen fyw, fydd yn cael ei diweddarau a'i haddasu wrth i drafodaethau a chynlluniau ddatblygu. Bydd manylion am union brosiectau neu ymrwymadau cydweithio yn cael eu hychwanegu wrth iddynt ddod yn gliriach, ac wrth i feysydd a chyfleoedd newydd godi mewn trafodaethau gyda'r sefydliadau partner.

O dan bob maes blaenoriaeth felly, rydym yn eich atgoffa o'r hyn rydym yn ei nodi yn y Cynllun Hybu fel yr hoffem ei weld yn digwydd, a pha gamau yr ydym yn gobeithio eu cymryd er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y maes hwnnw.

Maes Blaenoriaeth 1 – Iaith y teulu

Y weledigaeth...

- Gwell cydweithio rhwng asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal cyfrwng Cymraeg yn cael eu monitro a'u cefnogi yn briodol.
- Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol
- Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn nifer y plant o aelwydydd lle caiff mwy nag un iaith ei siarad sydd yn gallu'r Gymraeg.

Camau gweithredu

- Sefydlu trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth sirol ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar, gyda'r nod o:
 - osgoi dyblygu a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu yn briodol
 - cydweithio ar raglen hyfforddiant ar gyfer gweithwyr blynyddoedd cynnar
 - datblygu syniadau megis sefydlu Siarter Iaith ar gyfer darparwyr gofal cyn oed ysgol
 - canfod cyfleoedd cydweithio er mwyn cynyddu cyfleoedd chwarae a dysgu Cymraeg i'r teulu.
- Cynnal hyfforddiant ar gyfer darparwyr gofal a darparwyr gweithgareddau i blant cyn oed ysgol a'u rheini er mwyn:
 - datblygu eu dealltwriaeth o fanteision amlieithrwydd a'r modd y gallant ddylanwadu ar agweddau rhieni y byddant yn dod i gyswllt â nhw
 - datblygu eu dealltwriaeth am sut i gefnogi dysgwyr
 - datblygu sgiliau cyflwyno yn ddwyieithog
- Cynnig cefnogaeth a chydweithio gyda darparwyr gweithgareddau i gynyddu nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sydd yn rhoi cyfle i blant a theuluoedd ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau anffurfiol a chefnogol.

3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith dysgu

Y weledigaeth...

- Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Uwchradd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg – fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

Camau gweithredu

- Gweithredu ar flaenoriaethau cyfredol cynlluniau'r Adran Addysg sydd yn edrych ar ddatblygu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol:
 1. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
 2. Siarter Iaith ysgolion Cynradd
 3. Strategaeth Iaith Uwchradd
- Sicrhau bod cyfleoedd cynyddol i bobl ifanc ennill cymwysterau ac achrediadau y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysg ac mewn meysydd amrywiol fydd yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.
Gwneir hyn drwy ddarparu cyfleoedd yn uniongyrchol ac hefyd drwy ddylanwadu ar ddarparwyr ac achredwyr cenedlaethol.
- Cydlynu gwaith gyda'r gwasanaeth leuenctid i sicrhau bod mwy o gyfleoedd dysgu allgyrsiol ac anffurfiol yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn gyson ar draws y sir.
- Datblygu prosiect ar y cyd rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc am yr angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi o bob lefel, gan edrych ar sicrhau cyfleoedd profiad gwaith ffurfiol ac anffurfiol, a datblygu rhwydwaith rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr.

3.3 Maes Blaenoriaeth 3 – Iaith gwaith a gwasanaeth

Y weledigaeth...

- Cynnydd yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio a defnyddio gwasanaethau – wyneb yn wyneb ac arlein
- Gwella ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a rheolwyr busnesau am werth sgiliau Cymraeg ymysg eu gweithlu a chynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig i gynyddu defnydd a hyder o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio ac mewn cynlluniau strategol traws-sirol

Camau gweithredu

- Cydweithio ar brosiect y Cynllun Llesiant drwy Fwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau cyhoeddus.
- Gweithredu prosiect Cynllun y Cyngor efo'r bwriad o annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys busnesau a threfnwyr digwyddiadau ar draws sawl sector.
- Parhau i gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar brosiectau sydd yn cynnig arweiniad a hyfforddiant i'r sector gofal cychwynnol.
- Ymchwilio i gyfleoedd posib i gyfrannu at gryfhau a datblygu sectorau twf yn y sir, megis technoleg a datblygu apiau, gan edrych ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes
- Darparu hyfforddiant o fewn y Cyngor fydd yn cynyddu hyder a defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith ac yn edrych yn benodol i ddatblygu sgiliau iaith staff mewn meysydd gwaith sydd yn cael eu hystyried yn rhai rheng flaen, sensitif:
 - Ieuenctid
 - Hamdden
 - Gofal

3.4 Maes Blaenoriaeth 4 – Iaith y gymuned

Y weledigaeth...

- Trigolion sydd yn hyderus yn defnyddio pa bynnag sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth fyw eu bywydau dyddiol yn ein cymunedau.
- Y Gymraeg yn cael ei gweld yn amlwg, wrth gynnal ac wrth hysbysebu gweithgareddau a bod llai o weithgareddau uniaith Saesneg yn cael eu cynnal yn y cymunedau
- Gwahanol garfanau cymdeithasol a chymunedol, a siaradwyr llai parod, y teimlo eu bod yn rhan o'r "gymuned Gymraeg"
- Gweithio i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn gynhwysol – bod dysgwyr a siaradwyr llai hyderus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- Cyngorau a grwpiau cymunedol yn ymwybodol o'u rôl posib ac yn cael cefnogaeth i drefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn mynd ati'n bwrpasol i hybu'r Gymraeg
- Pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.

Camau gweithredu

- Gwella cydweithio rhwng y Cyngor a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod budd-ddeiliaid cymunedol yn cael llais wrth bennu lle mae adnoddau ac ymyrraeth yn cael eu cyfeirio.
- Cynnal sesiynau rheolaidd gyda chynghorwyr a chynrychiolwyr cynghorau a mudiadau cymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth am eu rôl nhw wrth hybu'r Gymraeg yn y gymuned,
- Cynnal ymyrraeth wedi ei dargedu ar ardaloedd penodol, drwy waith hunaniaith, fydd yn ceisio:
 - Sicrhau cyfleoedd amrywiol a chyson i deuluoedd, pobl ifanc, a dysgwyr ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
 - Cynnig cefnogaeth i grwpiau a mudiadau cymunedol drefnu a chynnal gweithgareddau
 - Cynnig cefnogaeth i fusnesau wneud defnydd amlycach o'r Gymraeg
- Edrych ar ffyrdd y gallwn ddylanwadu a sicrhau bod digwyddiadau mawrion sydd yn cael eu cynnal yn y sir yn defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol y sir, drwy:
 - gynnig cefnogaeth i drefnwyr digwyddiadau.
 - Monitro defnydd iaith digwyddiadau sydd yn cael eu hariannu neu yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru
- Cryfhau ein dylanwad ar y sector breifat drwy'r broses gynllunio, gan gynnwys:
 - Sicrhau'r trefniadau asesu effaith (CCA) o fewn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygwyr yn deall effaith eu cynlluniau ar y gymuned leol ac yn gosod a gweithredu mesurau lliniaru priodol.
 - Cyfrannu arbenigedd at grwpiau neu fforymau allanol yng nghyd-destun datblygiadau mawr fel Wylfa, Horizon,
 - Datblygu system rhannu gwybodaeth gyda chynghorau cymuned a'r adran gynllunio (a'r Parc Cenedlaethol) er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am geisiadau newid defnydd yn cael eu cyfeirio yn brydlon am gefnogaeth ac arweiniad.

3.4 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir

Y weledigaeth...

- Mwy o bobl yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg
- Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn gallu canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith

Camau gweithredu

- Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddatblygu prosiect Arfer - sydd yn edrych ar newid patrymau ac arferion defnydd iaith cydweithwyr - er mwyn canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith pobl a magu hyder ynddynt i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr.
- Hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth am feysydd ymchwil ac am ganfyddiadau neu gyhoeddiadau newydd sydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o arferion a newidiadau yn y maes.
- Cynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr mewn cyrsiau perthnasol er mwyn rhoi profiad ymarferol a chyfrannu at ddatblygu arbenigedd y dyfodol mewn cynllunio ieithyddol.
- Datblygu syniadau ar gyfer prosiectau fydd yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyd destun technoleg.

Eitem 7

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	18 Hydref 2018
TEITL:	Rhaglen Waith y Pwyllgor Iaith
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno syniadau ar gyfer rhaglen waith er gwybodaeth a thrafodaeth.

1. Cefndir

- 1.1 Cafwyd cyfarfod ar y 9fed o Hydref, gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Iaith, ynghyd a'r Aelod Cabinet dros y Gymraeg, er mwyn trafod pynciau posib i'r Pwyllgor eu cynnwys yn eu rhaglenni yn ystod y flwyddyn i ddod.
- 1.2 Atgoffwyd yr aelodau o gylich gorchwyl y Pwyllgor Iaith, a'r meysydd hynny y mae ganddynt y grym i ddylanwadu arno.
- 1.3 Prif bwrpas y Pwyllgor Iaith yw goruchwylio gweithrediad Polisi Iaith y Cyngor a chydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Yn ogystal a hynny, fodd bynnag, mae ganddynt rôl ymgynghorol yng nghydestun strategaethau hyrwyddo'r iaith o fewn y sir.
- 1.4 Gyda chyhoeddi'r Cynllun Hybu sirol, felly, cafwyd trafodaeth ynghylch sut y bydd y Pwyllgor yn cyfrannu tuag at fonitro'r gweithrediad, a chynigiwyd y gellid defnyddio themâu blaenoriaeth y Cynllun fel canllaw ar gyfer meysydd trafod – gan edrych ar un neu ddau o'r meysydd ym mhob cyfarfod.
- 1.5 Yn sgil y drafodaeth, cynigiwyd y meysydd canlynol fel rhai yr hoffai'r aelodau eu trafod ymhellach:
 - Addysg ddwyieithog – sut rydym yn llywio'r addysgu o blaid y Gymraeg
 - Datblygu sgiliau'r gweithlu – yn enwedig yn ysgrifenedig
 - Hyrwyddo polisiau Cymraeg – sut mae'r Cyngor yn cydweithio efo cyrff a sectorau eraill ac yn dylanwad ar eu defnydd o'r Gymraeg

- Allanolï a newidiadau sylweddol i wasanaethau – sut rydym yn sicrhau safonau wrth drosglwyddo gwasanaethau (Hamdden a gwasanaeth leuenctid yn benodol)
- Sut ydym ni'n dysgu o waith da gan eraill
- Rol technoleg
- Rol Hunaniaith wrth ddylanwadu a chydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill, ac i herio egwyddorion gweithredu

2 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

2.1 Gofynnir i'r aelodau wneud tri pheth:

- i) ystyried y meysydd trafod a gynigir uchod,
- ii) ystyried a oes unrhyw feysydd eraill, sydd yn berthnasol i flaenoriaethau'r Cynllun Hybu yr hoffent edrych arnynt,
- iii) blaenoriaethu'r meysydd trafod er mwyn llunio rhaglen waith benodol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	18 Hydref 2018
TEITL:	Cwynion ac Ymchwiliadau
AWDUR:	Gwenllian Mair Williams Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno'r cwynion a'r ymchwiliadau diweddaraf i'r Pwyllgor

CWYNION YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH

Derbyniwyd 1 gwyn o law y Comisiynydd ynghylch Holiadur Aelwydydd oedd ddim ar gael yn Gymraeg. Bu posib cadarnhau nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am ddsbarthu'r holiadur i drigolion ac ni chymerwyd camau pellach.

1 Ymchwiliad yn mynd rhagddo.

2 gais am gymorth wedi ei anfon i'r Comisiynydd oherwydd amgylchiadau lle rydym yn ymwybodol ein bod yn methu cydymffurfio oherwydd methiant cyrff allanol i ddarparu gwybodaeth a deunyddiau yn Gymraeg.

CWYNION UNIONGYRCHOL AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Amgylchedd	1	Dogfennau'r broses Gynllunio ddim ar gael yn Saesneg
Cefnogaeth Gorfforaethol	1	Cyfeiriad swyddogol y Cyngor ar y we
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	1	Holiadur ar-lein ddim ar gael yn Gymraeg
Economi a Chymuned	2	Amodau Cronfa benthyciadau busnes – busnes newydd heb ddefnyddio'r Gymraeg Tafleenni Cymunedau dros Waith ddim ar gael yn Gymraeg

Eitem 10

Mesur o Lwyddiant

Crynodeb o adroddiad sicrwydd
Comisiynydd y Gymraeg
2017-18



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Cyhoeddwyd yn unol ag adran 4 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

**Dyma grynodedb o adroddiad sicrwydd
2017-18 – adroddiad blynyddol sy'n cyflwyno
tystiolaeth a barn Comisiynydd y Gymraeg
ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau
Cymraeg, a sut mae sefydliadau'n
cydymffurfio â'u dyletswyddau iaith.**

Mae tystiolaeth ddigamsyniol erbyn hyn fod safonau wedi arwain at wella gwasanaethau Cymraeg. Dylid anelu i gynyddu'r momentwm sy'n adeiladu, ac ni ddylid gwanhau'r gyfundrefn reoleiddio sy'n sail i'r cynnydd.

Mae'r adroddiad yn amlygu tair prif her i sefydliadau:

- sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg o bob math ar gael bob amser;
- cymryd camau cadarnhaol fel bod mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg;
- rhoi ystyriaeth fanwl a strategol i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth wneud eu holl benderfyniadau ac wrth weithredu'n fewnol.



Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Er bod profiadau defnyddwyr yn dal i wella, mae angen cysondeb er mwyn rhoi ffydd i bobl fod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg bob tro, ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

1 Mae sefydliadau'n cynnig gwasanaethau Cymraeg o ansawdd mewn nifer o feysydd, gyda'r gwelliant a welwyd y llynedd yn cael ei gynnal neu'n cynyddu



Roedd **40%** o ymatebwyr i arolwg barn yn credu bod cyfleoedd yn cynyddu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chynghorau sir, a **42%** yn meddwl bod y cyfleoedd yn aros yr un peth. Dim ond 9% oedd yn meddwl bod cyfleoedd yn lleihau.



Cafwyd cyfarchiad Cymraeg gan y derbynnnydd yn ystod **89%** o alwadau ffôn



Roedd opsiynau Cymraeg gan beiriannau awtomatig yn ystod **98%** o'r galwadau lle'u defnyddiwyd



Cafwyd ymateb Cymraeg i e-bost Cymraeg mewn **93%** o achosion



88% o sefydliadau â hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg



100% o beiriannau hunanwasanaeth yn gweithio'n llawn yn Gymraeg

2 Nid yw gwasanaethau Cymraeg ar gael bob tro, ac mae'r perfformiad yn amrywio rhwng sectorau a rhwng mathau o wasanaethau




Mewn **37%** o achosion y llwyddodd aelod o staff y dderbynfa i ymdrin ag ymholiad syml yn y Gymraeg



Ar **62%** o apiau roedd pob tudalen a brofwyd ar gael yn y Gymraeg



O'r **10** cyfarfod cyhoeddus a fynychwyd, roedd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yn ystod **5** ohonynt yn unig



72% o ymatebwyr i'r arolwg barn yn cytuno eu bod yn gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg (**91%** yn 2016-17)

3 Mae'r Gymraeg weithiau'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ansawdd gwasanaethau



47% o ymatebwyr i arolwg barn oedd yn cytuno bod ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn un mor dda â gwasanaethau Saesneg



Roedd **25%** o'r apiau perthnasol oedd ar gael yn Gymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyhoeddi deunydd



49% o ymatebion Saesneg i ohebiaeth, a dim ond 30% o ymatebion Cymraeg, oedd yn cynnwys gwybodaeth neu ddogfennaeth ychwanegol



Ar **67%** o arwyddion roedd y Gymraeg wedi ei gosod fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf

Mae angen i sefydliadau annog defnydd o wasanaethau Cymraeg, eu gwneud yn hawdd i'w defnyddio, a deall profiadau go iawn defnyddwyr

4 Mae ffactorau cymhleth, sy'n ymwneud â ffydd mewn sefydliadau, yn dylanwadu ar benderfyniad pobl i ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg ai peidio



Mae'n well gan **32%** o siaradwyr Cymraeg a oedd yn rhan o'r arolwg barn ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, gyda **42%** yn dymuno defnyddio'r Saesneg




Cytunai **98%** ei bod yn bwysig fod gan bobl hawliau i dderbyn gwasanaethau Cymraeg (**97%** yn 2016-17)

Dylanwadau ar benderfyniad i ddefnyddio'r Gymraeg ai peidio (sesiynau cysgodi defnyddwyr):

- iaith sgwrs y staff ar y dderbynfa ymysg ei gilydd;
- ciwiau gweledol ynghylch gallu defnyddio'r Gymraeg;
- iaith y gerddoriaeth oedd yn chwarae tra oedd galwad ffôn mewn ciw;
- iaith, tŷn, arddull ac acen cyfarchiad.
- disgwyliadau ar sail lleoliad ac enw da'r sefydliad;
- datganiad fod modd cyfathrebu yn Gymraeg;
- cywirdeb y gwasanaeth Cymraeg ar wefan;
- a oedd angen gofyn yn benodol am wasanaeth Cymraeg ai peidio.

5 Dylai sefydliadau roi gwybod i bobl fod gwasanaethau o ansawdd da ar gael yn Gymraeg, a dylai defnyddio gwasanaethau Cymraeg fod yn brofiad hwylus, cadarnhaol a didrafferth



62% o ymatebwyr i'r arolwg barn wedi dweud bod sefydliadau'n gofyn iddynt ym mha iaith yr hoffent iddynt ddelio â hwy (**77%** yn 2016-17)



61% o ymatebwyr i'r arolwg barn wedi dweud eu bod yn gwybod gan ba sefydliadau y mae ganddynt hawl i gael gwasanaeth Cymraeg, a **61%** eu bod yn gwybod pa wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn



Dim ond **57%** o ymatebion i e-bost Cymraeg oedd yn nodi bod modd gohebu yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi



Roedd yn rhaid i'r galwyr ofyn am wasanaeth Cymraeg yn ystod **19%** o'r galwadau ffôn

Dim profiad cadarnhaol **14%** o weithiau wrth geisio defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn



Mewn **60%** o ymweliadau â derbynfeydd y gwelwyd arwydd yn datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg



Mewn **46%** o ymweliadau â derbynfeydd roedd staff Cymraeg yn gwisgo bathodyn yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg.



Ar gyfer **2 o'r 10** cyfarfod cyhoeddus a fynychwyd roedd y sefydliad wedi datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg



Dim ond mewn **9%** o hysbysiadau swyddogol roedd y testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf



Dim ond **54%** o beiriannau hunanwasanaeth oedd yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg

6 Mae angen i sefydliadau fynd ati'n systematig i gasglu gwybodaeth am gryfderau a gwendidau eu perfformiad eu hunain, gan ddefnyddio cwynion fel dull cadarnhaol o ddeall beth sy'n mynd o'i le weithiau



Dim ond **32%** o ymatebwyr i'r arolwg barn oedd yn teimlo bod sefydliadau'n ei gwneud yn glir iddynt sut i gwyno os oeddent yn anfodlon â gwasanaeth Cymraeg



81% o ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig gallu cwyno wrth sefydliad annibynnol am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg



Dim ond **37%** o sefydliadau oedd wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno

Ers cyflwyno'r safonau, gwelwyd newid sylweddol yn ymddygiad sefydliadau wrth i'r Comisiynydd ymdrin â chwynion am eu cydymffurfiaeth, gyda chydweithrediad ac awydd i gywiro methiannau'n amlwg.

Mae angen i sefydliadau roi ystyriaeth strategol a manwl i gynyddu defnydd o'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, ac o ran iaith gweithredu mewnol

7 Nid yw'n amlwg fod y trefniadau a ddatblygwyd gan sefydliadau yn sgil cyflwyno'r safonau penderfyniadau polisi yn arwain at asesiadau effaith digon manwl, ystyrion a strategol

Wrth wneud penderfyniadau polisi, rhaid i sefydliadau roi ystyriaeth fanwl a strategol i'r Gymraeg. Mae'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddwl am sut y gall penderfyniadau gael effeithiau cadarnhaol, a llai o effeithiau andwyol, ar:


- y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


Nododd 20 o 26 sefydliad oedd yn rhan o astudiaeth penderfyniadau polisi eu bod wedi cynnwys y Gymraeg fel nodwedd warchoddedig o fewn eu hasesiadau effaith cydraddoldeb. Nid yw'n amlwg fod gwneud hyn yn arwain at asesiadau digon ystyrion o effaith penderfyniadau ar y Gymraeg, nac yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r holl faterion sy'n ofynnol dan y safonau.


Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch ystyried y Gymraeg wrth ymgynghori, canolbwyntiodd sawl sefydliad ar iaith dogfennau ymgynghori yn hytrach na'r hyn a wnaed i gasglu barn ynghylch effeithiau posib ar y Gymraeg.

Dim ond 3 sefydliad wnaeth sôn am gasglu gwybodaeth ynghylch yr effaith ar y Gymraeg wrth wneud gwaith ymchwil i gynorthwyo penderfyniadau polisi.

8 Dylai sefydliadau ystyried effeithiau dyfarnu grantiau ar y Gymraeg, a dylent sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan drwy contract trydydd parti ar gael yn Gymraeg

 **82%** o sefydliadau'n cyhoeddi dogfennau sy'n ymwneud â cheisiadau am grant yn Gymraeg, ac **89%** yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am contract yn Gymraeg, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

 **67%** o sefydliadau'n cynnig cyfweliad grantiau yn Gymraeg, a **67%** yn cynnig cyfweliadau contractau yn Gymraeg

 Dim ond **18%** o sefydliadau oedd wedi llunio (neu ddiwygio) a chyhoeddi polisi'n esbonio sut y byddent yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau am ddyfarnu grantiau, a phrin oedd y dystiolaeth fod sefydliadau'n ystyried y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau

9 Mae angen i sefydliadau gael polisi sy'n anelu i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad ac ennill ymroddiad swyddogion i gynnis gwasanaethau Cymraeg

Nododd pob un o'r 26 sefydliad oedd yn rhan o astudiaeth yn edrych ar iaith gweithredu mewnol eu bod yn galluogi cyflogeion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ynghylch cwynion, disgyblu a datblygu.

Darparodd 22 o'r 26 sefydliad enghreifftiau o bolisiau a dogfennau eraill a oedd ar gael i staff yn Gymraeg.

Roedd pob sefydliad yn darparu meddalwedd gwirio sillafu, ac 18 o'r 26 yn cynnis rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer y cyfrifiadur.

Ar y cyfan, Saesneg yw iaith cyfarfodydd mewnol sefydliadau, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg dim ond pan fo'r holl fynychwyr yn siarad Cymraeg.

Nododd pob sefydliad, ac eithrio un, mai Saesneg oedd iaith ysgrifenedig y sefydliad.

Profiadau defnyddwyr

Yn aml mae pobl eisiau'r gwasanaeth yn y fan a'r lle a dyna yw'r flaenoriaeth. Does braidd byth yr egni gan bobl i gwyno. Mae hynny'n arwain at ddiffyg darlun go iawn o'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

Chi'n gallu mynd at y cyngor nawr a ma 'na bobl ar y ffrynt sy'n gallu siarad Cymraeg gyda chi a ma hwnna yn newid ers y safonau.

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

Dyw pobl ddim isie gofyn. Gwed bod e ddim ar ga'l neu dyw e ddim yn amlwg, ti ddim isie gorfod dechre meddwl a oes yna opsiwn Cymraeg – ti isie jyst neud e.

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

Mae dewis i ddefnyddio'r Gymraeg neu beidio yn aml yn cael ei wneud yn yr isymwybod, ac rydyn ni'n asesu trwy'r amser beth yw'r tebygolrwydd bod gwasanaeth Cymraeg yn mynd i fod ar gael yma, felly mae angen ffyrdd clyfar o ddangos bod y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg.

Aelod o'r cyhoedd mewn grŵp trafod

Arferion llwyddiannus

Dwi wedi penderfynu fy mod i'n bersonol eisiau gweld pob cwyn mae'r llu'n ei derbyn ynghylch ein darpariaeth Gymraeg. Wrth i ni ddechrau gweithredu'r safonau, mae hyn yn ffordd wych i mi allu deall y sefyllfa wirioneddol.

**Jeremy Vaughan, Prif Gwnstabl Cynorthwyol,
Heddlu De Cymru**

Rydyn ni wedi sefydlu swydd swyddog cydymffurfio gyda'r un statws â swyddog o'r adran archwilio. Mae'r swyddog yn cynnal archwiliadau gorfodol gydag adrannau fesul un, gan yrru gwelliannau i wasanaethau Cymraeg.

**Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau
Cymraeg, CBS Rhondda Cynon Taf**

Rydyn ni'n awyddus fod ein cwsmeriaid yn cael gwasanaeth dwyieithog dim ots pwy sy'n ei ddarparu. Dyna pam rydyn ni wedi mynd ati i gyhoeddi dogfen sy'n crynhoi gofynion y safonau ar gyfer trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan.

**Ffion Gruffudd, Pennaeth Caerdydd
Ddwyieithog, Cyngor Caerdydd**

Rydym wedi dechrau ar raglen dreigl 6 mlynedd o waith dwys gydag adrannau unigol er mwyn eu galluogi i weithio drwy'r Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol.

**Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a
Strategaeth, Cyngor
Sir Ynys Môn**

Rydym yn casglu gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, yn cysylltu â'r dysgwyr yn unigol ac yn dweud wrthynt am y cyfleoedd i gael gwasanaethau Cymraeg.

**Llinos Roberts,
Pennaeth
Cyfathrebu
Corfforaethol a'r
Gymraeg, Coleg
Cambria**